# SL(6)339 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau"), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiadau poblogaeth

Mae rheoliad 4 o'r prif Reoliadau yn darparu bod rhaid i gyrff cyfrifol, wrth gynnal asesiad poblogaeth, ymgysylltu â sefydliadau sector preifat penodol neu sefydliadau trydydd sector penodol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau fel bod rhaid i gyrff cyfrifol ymgysylltu hefyd ag unrhyw gorff cyhoeddus y maent yn credu ei fod yn ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, neu fod ganddo fuddiant mewn darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol, i'r boblogaeth leol. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn mewnosod diffiniadau perthnasol at y dibenion hyn.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at Ran 4 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020").

Mae adran 12 o Ddeddf 2020 yn sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"). Daeth Erthygl 3 o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal

Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 1) 2022 ag adran 12 o Ddeddf 2020 (ac Atodlen 1 (Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru), ac eithrio paragraffau 6, 7, 8 a 22 o'r Atodlen honno, i rym ar 1 Ebrill 2022.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> "***Disgwylir*** *i'r Corff fod yn gweithredu'n llawn o 1 Ebrill 2023 ymlaen".*

Fodd bynnag, nid yw rhai darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2020 wedi dod i rym eto.

A all Llywodraeth Cymru nodi pryd y gellir disgwyl gorchymyn cychwyn mewn perthynas â gweddill y darpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf 2020?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi na chynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad yn benodol ar y Rheoliadau hyn, sydd, yn bennaf, yn gwneud mân ddiwygiad i'r prif Reoliadau i sicrhau y gellir cyflawni amcanion Deddf 2020 yn briodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad blaenorol ar y polisi perthnasol yn Neddf 2020."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Mawrth 2023**